***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Paragraff 7. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 4

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

7 Yn adran 108 (cymeradwyaeth y tribiwnlys i archwilio mangre)—

(a) yn is-adran (1)(a), ar ôl "103" mewnosoder ", 103A, 103B";

(b) yn is-adran (1)(b), ar ôl "103" mewnosoder ", 103A neu 103B";

(c) yn is-adran (2), ar ôl "103" mewnosoder ", 103A neu 103B";

(d) yn is-adran (4), yn lle'r geiriau o "103" i ddiwedd paragraff (a) (ond heb gynnwys y gair "a" ar ôl y paragraff hwnnw) rhodder "103, 103A neu 103B—

(a) onid yw'n fodlon bod y gofyniad cymwys wedi ei fodloni,";

(e) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(4A) Y gofyniad cymwys yw—

(a) yn achos archwiliad o fangre busnes person o dan adran 103, bod gan ACC sail dros gredu ei bod yn ofynnol archwilio'r fangre at ddiben gwirio sefyllfa dreth y person;

(b) yn achos archwiliad o fangre busnes person o dan adran 103A, bod gan ACC sail dros gredu bod yr amodau a nodir yn is-adrannau (2) a (3) o'r adran honno wedi eu bodloni;

(c) yn achos archwiliad o fangre o dan adran 103B, bod gan ACC sail dros gredu'r materion a nodir yn is-adran (1) o'r adran honno."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** Atod. 4 para. 7 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(z)(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Paragraff 7.